



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 Rhif 2230 (Cy.148)

2000 No. 2230 (W. 148)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

**SEA FISHERIES,
WALES**

**Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi
Mesurau Cadwraeth y Gymuned)
(Cymru) 2000**

**The Sea Fishing (Enforcement of
Community Conservation
Measures) (Wales) Order 2000**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note does not form part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cadwraeth y Gymuned) 1997 (O.S. 1997/1949) a Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cadwraeth y Gymuned) (Diwygio) 1997 (O.S. 1997/2841) i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru (erthygl 15).

This Order revokes the Sea Fishing (Enforcement of Community Conservation Measures) Order 1997 (S.I. 1997/1949) and the Sea Fishing (Enforcement of Community Conservation Measures) (Amendment) Order 1997 (S.I. 1997/2841) in so far as they apply to Wales (article 15).

Mae'r Gorchymyn yn ail-ddeddfu darpariaethau ar gyfer gorfodi Erthygl 11 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 894/97 (OJ Rhif L132, 23.5.97, t.1) sy'n pennu mesurau technegol penodol ar gyfer cadw adnoddau pysgodfeydd ("Rheoliad 894/97").

The Order re-enacts provisions for the enforcement of Article 11 of Council Regulation (EC) No. 894/97 (OJ No. L132, 23.5.97, p.1) laying down certain technical measures for the conservation of fishery resources ("Regulation 894/97").

Mae'r Gorchymyn hefyd yn gwneud darpariaethau ar gyfer gorfodi cyfyngiadau a rhwymedigaethau a gynhwysir yn Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 850/98 (OJ Rhif L125, 27.4.98, t.1), ar gyfer cadw adnoddau pysgodfeydd drwy gyfrwng mesurau technegol i amddiffyn organeddau morol ifanc, fel y'i diwygiwyd ("Rheoliad 850/98").

The Order also makes provision for the enforcement of restrictions and obligations contained in Council Regulation (EC) No. 850/98 (OJ No. L125, 27.4.98, p.1) for the conservation of fishery resources through technical measures for the protection of juveniles of marine organisms, as amended ("Regulation 850/98").

Mae Erthygl 3 o'r Gorchymyn yn creu tramgwyddau mewn perthynas â thorri: Erthygl 11 o Reoliad 894/97; darpariaethau Rheoliad 850/98 y cyfeirir atynt yng ngholofn 1 (ac a ddisgrifir yn fyr yng ngholofn 2) o'r Atodlen i'r Gorchymyn; darpariaethau Rheoliad 850/98 y cyfeirir atynt yn erthygl 3(2); a mesurau technegol sy'n gymwys yn 2000 yn rhinwedd Erthygl 9 o Reoliad y Cyngor (EC) 2742/99 (OJ Rhif L341, 31.12.99, t.1). Pennir cosbau, a all gynnwys fforffedu

Article 3 of the Order creates offences in respect of breaches of: Article 11 of Regulation 894/97; the provisions of Regulation 850/98 referred to in column 1 (and briefly described in column 2) of the Schedule to the Order; the provisions of Regulation 850/98 referred to in article 3(2); and technical measures applying in 2000 by virtue of Article 9 of Council Regulation (EC) 2742/99 (OJ No. L341, 31.12.99, p.1). Penalties, which may include the forfeiture of

pysgod, rhwydi ac offer pysgota arall, ar gyfer y tramgwyddau hyn (erthygl 4).

Mae'r Gorchymyn yn rhoi pwerau gorfodi, mewn perthynas â chychod pysgota ac ar y tir, i swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig sy'n gweithredu yng Nghymru ac yn y môr cyfagos at Gymru. Mae'r pwerau hynny yn ymestyn i gipio pysgod ac offer pysgota (erthyglau 6, 7 ac 8). Rhoddir pwerau i swyddogion eraill hefyd mewn perthynas â physgod sy'n rhy fach a rhwydi ac offer pysgota (erthygl 9). Gwneir darpariaeth ar gyfer cosbi unrhyw un a geir yn euog o rwystro swyddog neu ymosod ar swyddog (erthygl 11).

Gwneir darpariaeth hefyd ar gyfer erlyn troseddwr ac ar gyfer achosion gan bwyllgorau pysgodfeydd lleol (erthygl 13). £5,000 yw uchafswm statudol y gosb y cyfeirir ati yn y Gorchymyn ar hyn o bryd.

Mae'r Gorchymyn yn darparu pwerau ar gyfer casglu dirwyon a osodir gan lys ynadon (erthygl 5).

Yn erthyglau 10, 12 a 14 ceir darpariaethau atodol.

fish, nets and other fishing gear, are specified for such offences (article 4).

The Order confers powers of enforcement, in relation to fishing boats and on land, on British sea-fishery officers acting in Wales and within the sea adjacent to Wales. Those powers extend to the seizure of fish and fishing gear (articles 6, 7 and 8). Other officers are also given powers in relation to undersized fish and nets and fishing gear (article 9). Provision is made for the punishment of anyone found guilty of obstructing or assaulting an officer (article 11).

Provision is also made for the prosecution of offenders and for proceedings by local fisheries committees (article 13). The statutory maximum penalty referred to in the Order is currently £5,000.

The Order provides powers for the recovery of fines imposed by a magistrates' court (article 5).

Articles 10, 12 and 14 contain ancillary provisions.

2000 Rhif 2230 (Cy. 148)

2000 No. 2230 (W. 148)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU****SEA FISHERIES,
WALES**Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi
Mesurau Cadwraeth y Gymuned)
(Cymru) 2000The Sea Fishing (Enforcement of
Community Conservation
Measures) (Wales) Order 2000

Wedi'i wneud 10 Awst 2000
Yn dod i rym 11 Medi 2000

Made 10th August 2000
Coming into force 11th September 2000

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 30(2) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981(a) a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwn, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred on it by section 30(2) of the Fisheries Act 1981(a) and of all other powers enabling it in that behalf, hereby makes the following Order:

Enwi, cychwyn a chymhwys

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cadwraeth y Gymuned) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 11 Medi 2000.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru a'r môr cyfagos at Gymru.

Title, commencement and application

1.-(1) This Order may be cited as the Sea Fishing (Enforcement of Community Conservation Measures) (Wales) Order 2000 and shall come into force on 11 September 2000.

(2) This Order applies to Wales and to the sea adjacent to Wales.

Dehongli

2.-(1) Yn y Gorchymyn hwn –

mae “cwch pysgota” (“*fishing boat*”) yn cynnwys cwch derbyn a chwch trydedd wlad, y naill a'r llall o fewn ystyr Rheoliad 2847/93;

mae “cynhyrchion pysgodfeydd” (“*fisheries products*”) yn cynnwys pysgod;

ystyr “mesur Cymunedol penodedig” (“*specified Community measure*”) yw darpariaeth a bennir yng ngholofn 1 o'r Atodlen wedi'i darllen ym mhob achos ynghyd ag unrhyw eiriau amodi sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth honno yn y golofn honno;

Interpretation

2.-(1) In this Order –

“fish” (“*pysgod*”) includes crustacea, molluscs and parts of fish;

“fisheries products” (“*cynhyrchion pysgodfeydd*”) includes fish;

“fishing boat” (“*cwch pysgota*”) includes a receiving vessel and a third country vessel, in each case within the meaning of Regulation 2847/93;

(a) 1981 p.29. Gweler adran 30(3) i gael y diffiniadau o “enforceable Community restriction”, “enforceable Community obligation” ac “the Ministers” fel y'u diwygiwyd gan Atodlen 2 paragraff 68(5) i Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Addasiadau Canlyniadol) (Rhif 2) 1999 (O.S. 1999/1820). Yn rhinwedd Erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), trosglwyddwyd y swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adran 30(2) o Ddeddf 1981, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(a) 1981 c.29. See section 30(3) for the definitions of “enforceable Community restriction”, “enforceable Community obligation” and “the Ministers”, as modified by Schedule 2, paragraph 68(5) of the Scotland Act 1998 (Consequential Modifications) (No.2) Order 1999 (S.I. 1999/1820). By virtue of article 2(a) of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) the functions exercisable under section 30(2) of the 1981 Act were transferred to the National Assembly in so far as exercisable in relation to Wales.

ystyr “y môr cyfagos at Gymru” (“*the sea adjacent to Wales*”) yw y môr cyfagos at Gymru allan cyn belled â ffin y môr tiriogaethol â’r môr ac fe’i dehonglir yn unol ag erthygl 6 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 3 iddo(a);

ystyr “pwyllgor pysgodfeydd lleol” (“*local fisheries committee*”) yw pwyllgor pysgodfeydd lleol a gyfansoddwyd gan orchymyn wedi’i wneud, neu sydd ag effaith fel petai wedi’i wneud, o dan adran 1 o Ddeddf Rheoli Pysgodfeydd Môr 1966(b);

mae “pysgod” (“*fish*”) yn cynnwys cramenogion, molysgiaid a rhannau o bysgod;

ystyr “Rheoliad 2847/93” (“*Regulation 2847/93*”) yw Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2847/93 a sefydlodd gyfundrefn reoli sy’n gymwys i’r polisi pysgodfeydd cyffredin(c);

ystyr “Rheoliad 894/97” (“*Regulation 894/97*”) yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 894/97 a bennodd fesurau technegol penodol ar gyfer cadwraeth adnoddau pysgodfeydd(ch);

ystyr “Rheoliad 850/98” (“*Regulation 850/98*”) yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 850/98 ar gyfer cadw adnoddau pysgodfeydd drwy gyfrwng mesurau technegol i amddiffyn organeddau morol ifanc(d) fel y’i cywirwyd gan y Cywiriad i Atodiad XII o Reoliad 850/98(dd) a’i ddiwygio gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 308/1999(e), Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1459/99 (f) a Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2723/1999(ff);

“local fisheries committee” (“*pwyllgor pysgodfeydd lleol*”) means a local fisheries committee constituted by an order made, or having effect as if made, under section 1 of the Sea Fisheries Regulation Act 1966(a);

“Regulation 2847/93” (“*Rheoliad 2847/93*”) means Council Regulation (EEC) No. 2847/93 establishing a control system applicable to the common fisheries policy(b);

“Regulation 894/97” (“*Rheoliad 894/97*”) means Council Regulation (EC) No. 894/97 laying down certain technical measures for the conservation of fishery resources(c);

“Regulation 850/98” (“*Rheoliad 850/98*”) means Council Regulation (EC) No. 850/98 for the conservation of fishery resources through technical measures for the protection of juveniles of marine organisms(d) as corrected by a Corrigendum to its Annex XII (e) and amended by Council Regulation (EC) No. 308/1999(f), Council Regulation (EC) No. 1459/99(g) and Council Regulation (EC) No. 2723/1999(h);

“Regulation 2742/99” (“*Rheoliad 2742/99*”) means Council Regulation (EC) No. 2742/99(i) fixing for 2000 the fishing opportunities and associated conditions for certain fish stocks and groups of fish stocks, applicable in Community waters and, for Community vessels, in waters where limitations in catch are required and amending Regulation (EC) No. 66/98, as corrected by a Corrigendum(j);

(a) O.S. 1999/672.

(b) 1966 p.38. Dirymwyd adran 1 yn rhannol gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70), adran 272(1) ac Atodlen 30; a’i hamnewid yn rhannol, mewn perthynas â Chymru, gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19), adran 66(6) ac Atodlen 16, paragraff 26(1).

(c) OJ Rhif L261, 20.10.93, t.1, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 2846/98 (OJ Rhif L358, 31.12.98, t.5).

(ch) OJ Rhif L132, 23.5.97, t.1, fel y’i diwygiwyd gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1239/98 (OJ Rhif L171, 17.6.98, t.1). Ac eithrio Erthyglau 11, 18, 19 ac 20, mae Rheoliad 894/97 wedi’i ddirymu gan Erthygl 49 o Reoliad y Cyngor o 1 Ionawr 2000 ymlaen.

(d) OJ Rhif L125, 27.4.98, t.1.

(dd) OJ Rhif L318, 27.11.98, t.63.

(e) OJ Rhif L038, 12.2.99, t.6.

(f) OJ Rhif L168, 3.7.99, t.1.

(ff) OJ Rhif L328, 22.12.99, t.9.

(a) 1966 c.38. Section 1 was repealed in part by the Local Government Act 1972 (c.70), section 272(1) and Schedule 30; and substituted in part, as regards Wales, by the Local Government (Wales) Act 1994 (c.19), section 66(6) and Schedule 16, paragraph 26(1).

(b) OJ No. L261, 20.10.93, p. 1, as last amended by Council Regulation (EC) No. 2846/98 (OJ No. L358, 31.12.98, p.5).

(c) OJ No. L132, 23.5.97, p.1, as amended by Council Regulation (EC) No. 1239/98 (OJ No. L171, 17.6.98, p.1). With the exception of Articles 11, 18, 19 and 20, Regulation 894/97 is repealed by Article 49 of Regulation 850/98 as from 1 January 2000.

(d) OJ No. L125, 27.4.98, p.1.

(e) OJ No. L318, 27.11.98, p.63.

(f) OJ No. L038, 12.2.99, p.6.

(g) OJ No. L168, 3.7.99, p.1.

(h) OJ No. L328, 22.12.99, p.9.

(i) OJ No. L341, 31.12.99, p.1.

(j) OJ No. L31, 5.2.2000, p.89.

ystyr “Rheoliad 2742/99” (“*Regulation 2742/99*”) yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2742/99(a) a bennodd y cyfleoedd pysgota a’r amodau cysylltiedig ar gyfer stociau pysgod penodol a grwpiau o stociau pysgod ar gyfer 2000 sy’n gymwysadwy yn nyfroedd y Gymuned ac, yn achos cychod y Gymuned, mewn dyfroedd lle mae’n ofynnol cyfyngu ar yr haldiad a’r Rheoliad diwygio sef Rheoliad (EC) Rhif 66/98, fel y’i cywirwyd gan Gywiriad(b);

ystyr “tramgwydd perthnasol” (“*relevant offence*”) yw tramgwydd o dan:

(a) erthygl 3 o’r Gorchymyn hwn; neu

(b) unrhyw ddarpariaeth mewn unrhyw orchymyn arall sy’n ymestyn i unrhyw ran o’r Deyrnas Unedig a wneir er mwyn gweithredu mesur Cymunedol penodedig, sef darpariaeth y gellir dwyn achos mewn perthynas â hi mewn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd adran 30(2A) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981(c).

(2) Yn y Gorchymyn hwn, mae unrhyw gyfeiriad at ddogfen, coflyfr neu ddatganiad yn cynnwys, yn ogystal â dogfen, coflyfr neu ddatganiad mewn ysgriflen –

- (i) unrhyw fap, plan, graff neu ddarlun;
- (ii) unrhyw ffotograff;
- (iii) unrhyw ddata, sut bynnag y’i hatgynhyrchir, a gyfathrebir drwy gyfrwng system loeren ar gyfer monitro cychod a sefydlwyd o dan Erthygl 3.1 o Reoliad 2847/93;
- (iv) unrhyw ddisg, tâp, trac sain neu ddyfais arall sy’n recordio seiniau neu ddata arall (nad ydynt yn ddelweddau gweledol) fel bod modd eu hatgynhyrchu oddi arnynt (gyda chymorth unrhyw gyfarpar arall neu hebdo);a
- (v) unrhyw ffilm (gan gynnwys microffilm), negatif, tâp, disg neu ddyfais arall y mae un neu fwy o ddelweddau gweledol yn cael eu recordio arnynt fel bod modd eu hatgynhyrchu oddi arnynt (fel y dywedwyd uchod).

(3) At ddibenion y Gorchymyn hwn, bernir bod ardal pwyllgor pysgodfeydd lleol yn ymestyn ledled ardal unrhyw gyngor yng Nghymru sy’n atebol i dalu costau’r pwyllgor, neu i gyfrannu at eu talu, ac eithrio na fydd unrhyw un o’r pwerau a roddir gan y Gorchymyn hwn i unrhyw swyddog pysgodfeydd i bwyllgor pysgodfeydd lleol yn arferadwy mewn perthynas ag unrhyw fater sy’n codi o fewn terfynau unrhyw farchnad sydd o dan reolaeth unrhyw gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.

“relevant offence” (“*tramgwydd perthnasol*”) means an offence under:

(a) article 3 of this Order, or

(b) any provision in any other order extending to any part of the United Kingdom made for the purposes of implementing a specified Community measure, being a provision in respect of which, by virtue of section 30(2A) of the Fisheries Act 1981(a), proceedings may be taken in any place in the United Kingdom;

“the sea adjacent to Wales” (“*y môr cyfagos at Gymru*”) means the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea and shall be interpreted in accordance with article 6 and Schedule 3 of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999(b); and

“specified Community measure” (“*mesur Cymunedol penodedig*”) means a provision which is specified in column 1 of the Schedule, read, in each case, with any qualifying words relating to that provision in that column.

(2) In this Order, any reference to a document, logbook or declaration includes, in addition to a document, logbook or declaration in writing -

- (i) any map, plan, graph or drawing;
- (ii) any photograph;
- (iii) any data, howsoever reproduced, communicated via a satellite-based vessel monitoring system established under Article 3.1 of Regulation 2847/93;
- (iv) any disk, tape, sound track or other device in which sounds or other data (not being visual images) are recorded so as to be capable (with or without the aid of some other equipment) of being reproduced therefrom; and
- (v) any film (including microfilm), negative, tape, disk or other device in which one or more visual images are recorded so as to be capable (as aforesaid) of being reproduced therefrom.

(3) For the purposes of this Order, the district of a local fisheries committee shall be deemed to extend throughout the area of any council in Wales liable to pay, or contribute to the payment of, the expenses of the committee, except that none of the powers conferred by this Order on any fishery officer of a local fisheries committee shall be exercisable in respect of any matter arising within the limits of any market under the control of any county council or county borough council.

(a) OJ Rhif L341, 31.12.99, t.1.

(b) OJ Rhif L31, 5.2.2000, t.89.

(c) Mewnsoodwyd adran 30(2A) gan Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhif 2) 1999.

(a) Section 30(2A) was inserted by the Scotland Act 1998 (Consequential Modifications) (No. 2) Order 1999.

(b) S.I. 1999/672.

- (4) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn –
- (a) at “yr Atodlen” yn gyfeiriad at yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn; a
 - (b) at un o offerynnau'r Gymuned yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y mae mewn grym ar y dyddiad y gwneir y Gorchymyn hwn.

(5) Rhaid peidio â darllen colofn 2 o'r Atodlen (sy'n rhoi awgrym mewn perthynas â phob mesur Cymunedol penodedig o bwnc y ddarpariaeth) fel pe bai'n cyfyngu ar gwmpas unrhyw fesur Cymunedol penodedig a chaiff ei hanwybyddu mewn perthynas ag unrhyw gwestiwn ynghylch dehongli'r Gorchymyn hwn.

Tramgwyddau

3.-(1) Pan fydd unrhyw fesur Cymunedol penodedig yn cael ei dorri, neu pan fethir â chydymffurfio ag ef mewn perthynas ag unrhyw gwch pysgota yn y môr cyfagos at Gymru neu drwy i unrhyw gwch pysgota ddod i'r môr cyfagos at Gymru, bydd meistr, perchennog, a siartrwr (os oes un) y cwch pysgota hwnnw bob un yn euog o dramgwydd.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) isod, bydd unrhyw berson sydd, yng Nghymru, yn glanio, yn cludo, yn storio, yn gwerthu, yn arddangos neu yn cynnig gwerthu –

- (a) unrhyw bysgodyn yn groes i unrhyw fesur Cymunedol penodedig, neu
- (b) unrhyw eog (*Salmo salar*) neu frithyll môr (*Salmo trutta*) yn groes i Erthyglau 26(1) neu 36 o Reoliad 850/98,

yn euog o dramgwydd.

(3) Ni fydd paragraff (2) uchod yn gymwys i berson sy'n glanio bysgodyn, eog neu frithyll môr os yw'r person hwnnw yn euog o dramgwydd o dan baragraff (1) uchod mewn perthynas â glanio'r bysgodyn, yr eog neu'r brithyll môr hwnnw.

Cosbau

4.-(1) Bydd person a geir yn euog o dramgwydd o dan erthygl 3(1) o'r Gorchymyn hwn, neu o dan unrhyw ddarpariaeth gyfatebol mewn unrhyw orchymyn arall sy'n ymestyn i unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig, y dygwyd achos mewn perthynas â'r tramgwydd yng Nghymru yn rhinwedd adran 30(2A) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981, yn agored -

- (a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy na'r swm a bennir yng ngholofn 3 o'r Atodlen mewn perthynas â'r mesur Cymunedol penodedig y bu ei dorri neu fethiant i gydymffurfio ag ef yn sail i'r tramgwydd;
- (b) o'i gollfarnu ar dditiad, i ddirwy.

(4) Any reference in this Order –

- (a) to “the Schedule” is a reference to the Schedule to this Order; and
- (b) to a Community instrument is a reference to that instrument as it is in force on the date this Order is made.

(5) Column 2 of the Schedule (which provides in relation to each specified Community measure an indication of the subject matter of the provision) shall not be read as limiting the scope of any specified Community measure and shall be disregarded in relation to any question arising as to the construction of this Order.

Offences

3.-(1) Where any contravention of, or failure to comply with, any specified Community measure is committed in respect of any fishing boat within the sea adjacent to Wales or the entry into the sea adjacent to Wales by any fishing boat, the master, the owner and the charterer (if any) of such fishing boat shall each be guilty of an offence.

(2) Subject to paragraph (3) below, any person who, in Wales, lands, transports, stores, sells, displays or offers for sale -

- (a) any fish in contravention of any specified Community measure, or
- (b) any salmon (*Salmo salar*) or sea trout (*Salmo trutta*) in contravention of Articles 26(1) or 36 of Regulation 850/98,

shall be guilty of an offence.

(3) Paragraph (2) above shall not apply to a person who lands a fish, salmon or sea trout if that person is guilty of an offence under paragraph (1) above as respects the landing of that fish, salmon or sea trout.

Penalties

4.-(1) A person found guilty of an offence under article 3(1) of this Order, or under any equivalent provision in any other order extending to any part of the United Kingdom, where proceedings in respect of the offence were brought in Wales by virtue of section 30(2A) of the Fisheries Act 1981, shall be liable -

- (a) on summary conviction to a fine not exceeding the amount specified in column 3 of the Schedule in relation to the specified Community measure the contravention of, or failure to comply with which founded the offence;
- (b) on conviction on indictment to a fine.

(2) Bydd person a geir yn euog o dramgwydd o dan erthygl 3(2) o'r Gorchymyn hwn, neu o dan unrhyw ddarpariaeth gyfatebol mewn unrhyw orchymyn arall sy'n ymestyn i unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig, y dygwyd achos mewn perthynas â'r tramgwydd yng Nghymru yn rhinwedd adran 30(2A) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981, yn agored -

- (a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol;
- (b) o'i gollfarnu ar ddiad, i ddirwy.

(3) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol yn yr erthygl hon, caiff y llys y caiff person ei gollfarnu am dramgwydd perthnasol ganddo neu ger ei fron orchymyn -

- (a) fforffedu unrhyw bysgod y cyflawnwyd y tramgwydd mewn perthynas â hwy; a
- (b) mewn perthynas â thramgwydd o dan erthygl 3(1) o'r Gorchymyn hwn, fforffedu unrhyw rwyd neu offer pysgota arall a ddefnyddiwyd wrth gyflawni'r tramgwydd.

(4) Bydd unrhyw berson a geir yn euog o dramgwydd perthnasol, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol, yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na gwerth y pysgod y cyflawnwyd y tramgwydd mewn perthynas â hwy.

(5) Ni fydd person yn agored i ddirwy o dan baragraff (4) mewn perthynas â thramgwydd perthnasol os yw'r llys, o dan baragraff (3), yn gorchymyn fforffedu'r pysgod y cyflawnwyd y tramgwydd mewn perthynas â hwy; ac os caiff dirwy ei gosod o dan baragraff (4) mewn perthynas ag unrhyw dramgwydd perthnasol, ni fydd gan y llys bŵer o dan baragraff (3) i orchymyn fforffedu'r pysgod y cyflawnwyd y tramgwydd perthnasol mewn perthynas â hwy.

(6) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), bydd unrhyw ddirwy y mae person yn agored iddi o dan baragraff (4) mewn perthynas â thramgwydd perthnasol yn ychwanegol at unrhyw gosb arall (boed yn gosb ariannol neu fel arall) y mae'r person hwnnw'n agored iddi mewn perthynas â'r tramgwydd hwnnw o dan yr erthygl hon neu o dan unrhyw ddeddfiad arall.

Casglu dirwyon

5.-(1) Pan osodir dirwy gan lys ynadon ar feistr, perchennog, siartrwr, neu aelod criw cwch pysgota a gollfarnir am dramgwydd perthnasol neu dramgwydd o dan erthygl 11 o'r Gorchymyn hwn, fe gaiff y llys -

- (a) cyhoeddi gwarant atafaelu yn erbyn y cwch a oedd yn gysylltiedig â chyflawni'r tramgwydd, ei offer a'i haldiad ac unrhyw eiddo sydd gan y person a gollfarnwyd er mwyn casglu swm y ddirwy; a

(2) A person found guilty of an offence under article 3(2) of this Order, or under any equivalent provision in any other order extending to any part of the United Kingdom, where proceedings in respect of the offence were brought in Wales by virtue of section 30(2A) of the Fisheries Act 1981, shall be liable -

- (a) on summary conviction to a fine not exceeding the statutory maximum;
- (b) on conviction on indictment to a fine.

(3) Subject to the following provisions of this article, the court by or before which a person is convicted of a relevant offence may order -

- (a) the forfeiture of any fish in respect of which the offence was committed; and
- (b) in respect of an offence under article 3(1) of this Order, the forfeiture of any net or other fishing gear used in committing the offence.

(4) Any person found guilty of a relevant offence shall, subject to the following provisions, be liable on summary conviction to a fine not exceeding the value of the fish in respect of which the offence was committed.

(5) A person shall not be liable to a fine under paragraph (4) in respect of a relevant offence if, under paragraph (3), the court orders the forfeiture of the fish in respect of which the offence was committed; and where a fine is imposed under paragraph (4) in respect of any relevant offence, the court shall not have power under paragraph (3) to order the forfeiture of the fish in respect of which the relevant offence was committed.

(6) Subject to paragraph (5), any fine to which a person is liable under paragraph (4) in respect of a relevant offence shall be in addition to any other penalty (whether pecuniary or otherwise) to which that person is liable in respect of that offence under this article or under any other enactment.

Recovery of fines

5.-(1) Where a magistrates' court imposes a fine on a fishing-boat master, owner, charterer, or crew-member who is convicted of a relevant offence or an offence under article 11 of this Order, the court may -

- (a) issue a warrant of distress against the boat involved in the commission of the offence and its gear and catch and any property of the person convicted for the purpose of levying the amount of the fine; and

(b) gorchymyn cadw'r cwch a'i offer a'i haldiad am gyfnod heb fod yn fwy na thri mis o ddyddiad y gollfarn neu hyd nes y telir y ddirwy neu y cesglir swm y ddirwy yn unol ag unrhyw warant o'r fath, p'un bynnag fydd yn digwydd gyntaf.

(2) Bydd adrannau 77(1) a 78 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980(a) (gohirio cyhoeddi gwarantau atafaelu, a diffygion ynddynt) yn gymwys i warant atafaelu a gyhoeddir o dan yr erthygl hon fel y maent yn gymwys i warant atafaelu a gyhoeddir o dan Ran III o'r Ddeddf honno.

(3) Pan fydd gorchymyn trosglwyddo dirwy o dan erthygl 95 o Orchymyn Llysoedd Ynadon (Gogledd Iwerddon) 1981(b) neu adran 222 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995(c) mewn perthynas â dirwy ynglŷn â thramgwydd perthnasol yn pennu rhanbarth llys ynadon yng Nghymru, bydd yr erthygl hon yn gymwys fel pe bai'r ddirwy wedi'i gosod gan lys o fewn y rhanbarth llys ynadon hwnnw.

Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig mewn perthynas â chychod pysgota

6.-(1) Er mwyn gorfodi darpariaethau erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn, neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol mewn unrhyw orchymyn arall sy'n ymestyn i unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig a wneir er mwyn gweithredu mesur Cymunedol penodedig, caiff unrhyw swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig arfer y pwerau a roddir gan baragraffau (2) i (4) o'r erthygl hon mewn perthynas ag unrhyw gwch pysgota yn y môr cyfagos at Gymru.

(2) Caiff y swyddog fynd ar fwrdd y cwch, gyda phersonau a neilltuwyd i gynorthwyo gyda'i ddyletswyddau neu hebddynt, a chaiff ei gwneud yn ofynnol bod y cwch yn cael ei stopio a gwneud unrhyw beth arall a fydd yn hwyluso naill ai mynd ar fwrdd y cwch neu fynd oddi arno.

(3) Caiff y swyddog ei gwneud yn ofynnol bod y meist'r a phersonau eraill sydd ar fwrdd y cwch yn bresennol a chaiff wneud unrhyw archwiliad ac ymholiadau sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol at y diben a grybwyllir ym mharagraff (1) o'r erthygl hon ac, yn benodol –

(a) caiff chwilio am bysgod neu offer pysgota ar y cwch a chaiff archwilio unrhyw bysgod ar y cwch ac offer y cwch, gan gynnwys yr offer pysgota, a'i gwneud yn ofynnol bod personau sydd ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol ar gyfer hwyluso'r archwiliad;

(b) order such boat and its gear and catch to be detained for a period not exceeding three months from the date of the conviction or until the fine is paid or the amount of the fine is levied in pursuance of any such warrant, whichever occurs first.

(2) Sections 77(1) and 78 of the Magistrates' Courts Act 1980(a) (postponement of issue of, and defects in, warrants of distress) shall apply to a warrant of distress issued under this article as they apply to a warrant of distress issued under Part III of that Act.

(3) Where in relation to a fine in respect of a relevant offence a transfer of fine order under article 95 of the Magistrates' Courts (Northern Ireland) Order 1981(b) or section 222 of the Criminal Procedure (Scotland) Act 1995(c) specifies a petty sessions area in Wales this article shall apply as if the fine were imposed by a court within that petty sessions area.

Powers of British sea-fishery officers in relation to fishing boats

6.-(1) For the purpose of enforcing the provisions of article 3 of this Order, or any equivalent provision in any other order extending to any part of the United Kingdom made for the purposes of implementing a specified Community measure, any British sea-fishery officer may exercise in relation to any fishing boat within the sea adjacent to Wales the powers conferred by paragraphs (2) to (4) of this article.

(2) The officer may go on board the boat, with or without persons assigned to assist in his or her duties, and may require the boat to be stopped and do anything else which will facilitate either the boarding of, or the disembarkation from, the boat.

(3) The officer may require the attendance of the master and other persons on board the boat and may make any examination and inquiry which appears to him or her to be necessary for the purpose mentioned in paragraph (1) of this article and, in particular –

(a) may search for fish or fishing gear on the boat and may examine any fish on the boat and the equipment of the boat, including the fishing gear, and require persons on board the boat to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the examination;

(a) 1980 p.43; troswyd yr uchafsymiau dirwyon yn adran 78 yn lefelau ar y raddfa safonol gan adrannau 37 a 46 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (p.48).

(b) O.S. 1981/1675 (GI 26).

(c) 1995 p.46.

(a) 1980 c.43; the maximum fines in section 78 were converted to levels on the standard scale by sections 37 and 46 of the Criminal Justice Act 1982 (c.48).

(b) S.I. 1981/1675 (NI 26).

(c) 1995 c.46.

- (b) caiff ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson sydd ar fwrdd y cwch yn cyflwyno unrhyw ddogfen sy'n ymwneud â'r cwch, ag unrhyw weithrediadau pysgota neu weithrediadau ategol iddynt neu â'r personau sydd ar fwrdd y cwch sydd yng nghadwraeth neu feddiant y person hwnnw;
- (c) er mwyn canfod a oes tramgwydd perthnasol wedi'i gyflawni, caiff chwilio'r cwch am unrhyw ddogfen o'r fath a chaiff ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson sydd ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol ar gyfer hwyluso'r chwilio;
- (ch) caiff archwilio a chopio unrhyw ddogfen o'r fath a gyflwynir i'r swyddog neu y deuir o hyd iddi ar fwrdd y cwch;
- (d) heb ragfarn i is-baragraffau (c) ac (ch), caiff ei gwneud yn ofynnol bod y meist'r ac unrhyw berson sydd am y tro yn gyfrifol am y cwch yn trosi'r holl ddogfennau o'r fath sydd ar system gyfrifiadurol i ffurf weladwy a darllenadwy, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw ddogfen o'r fath yn cael ei chyflwyno mewn ffurf y gellir mynd â hi oddi yno; ac
- (dd) os oes gan y swyddog reswm dros amau bod tramgwydd perthnasol wedi'i gyflawni mewn perthynas â'r cwch, caiff gipio a chadw unrhyw ddogfen o'r fath a gyflwynir iddo neu y deuir o hyd iddi ar fwrdd y cwch er mwyn galluogi defnyddio'r ddogfen fel tystiolaeth mewn achos ynglŷn â'r tramgwydd;

ond nid oes dim yn is-baragraff (dd) uchod yn caniatáu i unrhyw ddogfen y mae'r gyfraith yn mynnu ei bod yn cael ei chario ar fwrdd y cwch gael ei chipio a'i chadw ac eithrio tra bydd y cwch yn cael ei gadw mewn porthladd.

(4) Os yw'n ymddangos i swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig fod tramgwydd perthnasol wedi'i gyflawni ar unrhyw amser, caiff y swyddog -

- (a) ei gwneud yn ofynnol bod meist'r y cwch y credir bod y tramgwydd wedi'i gyflawni mewn perthynas ag ef yn mynd â'r cwch a'i griw i'r porthladd sy'n ymddangos i'r swyddog fel y porthladd cyfleus agosaf, neu caiff y swyddog wneud hynny ei hun; a
- (b) cadw'r cwch yn y porthladd neu ei gwneud yn ofynnol bod y meist'r yn ei gadw yn y porthladd;

(b) may require any person on board the boat to produce any document relating to the boat, to any fishing operations or other operations ancillary thereto or to the persons on board which is in that person's custody or possession;

- (c) for the purpose of ascertaining whether a relevant offence has been committed, may search the boat for any such document and may require any person on board the boat to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the search;
- (d) may inspect and take copies of any such document produced to the officer or found on board;
- (e) without prejudice to sub-paragraphs (c) and (d), may require the master and any person for the time being in charge of the boat to render all such documents on a computer system into a visible and legible form, including requiring any such document to be produced in a form in which it may be taken away; and
- (f) where the boat is one in relation to which the officer has reason to suspect that a relevant offence has been committed, may seize and detain any such document produced to him or her or found on board for the purpose of enabling the document to be used as evidence in proceedings for the offence;

but nothing in sub-paragraph (f) above shall permit any document required by law to be carried on board the boat to be seized and detained except while the boat is detained in a port.

(4) Where it appears to a British sea-fishery officer that a relevant offence has at any time been committed, the officer may -

- (a) require the master of the boat in relation to which the offence is believed to have taken place to take, or the officer may personally take, the boat and its crew to the port which appears to the officer to be the nearest convenient port; and
- (b) detain or require the master to detain the boat in the port;

a phan fydd swyddog o'r fath yn cadw cwch neu'n ei gwneud yn ofynnol cadw cwch rhaid i'r swyddog gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r meistyr yn datgan y caiff y cwch ei gadw neu ei bod yn ofynnol ei gadw hyd oni thynnir yr hysbysiad yn ôl drwy gyflwyno i'r meistyr hysbysiad ysgrifenedig arall a lofnodwyd gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig.

Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig ar y tir

7.-(1) Er mwyn gorfodi darpariaethau erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn, neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol mewn unrhyw orchymyn arall sy'n ymestyn i unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig a wneir er mwyn gweithredu unrhyw fesur Cymunedol penodedig, caiff unrhyw swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig, yng Nghymru-

- (a) mynd i mewn ac archwilio ar unrhyw adeg resymol unrhyw adeiladau a ddefnyddir ar gyfer rhedeg unrhyw fusnes mewn cysylltiad â gweithio cychod pysgota neu unrhyw weithrediadau sy'n gysylltiedig â hynny neu'n ategol iddynt neu mewn cysylltiad â thrin, storio neu werthu pysgod;
- (b) cymryd gydag ef neu hi unrhyw bersonau eraill sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol ac unrhyw gyfarpar neu ddeunyddiau;
- (c) archwilio unrhyw bysgod yn yr adeiladau a'i gwneud yn ofynnol bod unrhyw bersonau sydd yno yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol ar gyfer hwyluso'r archwilio;
- (ch) cyflawni yn yr adeiladau hynny unrhyw archwiliadau neu broffion eraill a fydd yn rhesymol angenrheidiol;
- (d) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson beidio a symud na pheri symud unrhyw bysgod o'r adeiladau hynny yn ystod unrhyw gyfnod a fydd yn rhesymol angenrheidiol i sefydlu a gyflawnwyd tramgwydd perthnasol ar unrhyw adeg;
- (dd) ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson sydd yn yr adeiladau yn cyflwyno unrhyw ddogfennau yn ei gadwraeth neu ei feddiant mewn perthynas â dal, glanio, cludo, trawslwytho, gwerthu neu waredu unrhyw bysgod;
- (e) er mwyn canfod a oes unrhyw berson yn yr adeiladau wedi cyflawni tramgwydd perthnasol, chwilio'r adeiladau am unrhyw ddogfen o'r fath a chaiff ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson sydd yn yr adeiladau yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol i hwyluso'r chwilio;
- (f) archwilio a chopio unrhyw ddogfen o'r fath a gyflwynir i'r swyddog neu y deuir o hyd iddi yn yr adeiladau;

and where such an officer detains or requires the detention of a boat the officer shall serve on the master a notice in writing stating that the boat will be or is required to be detained until the notice is withdrawn by the service on the master of a further notice in writing signed by a British sea-fishery officer.

Powers of British sea-fishery officers on land

7.-(1) For the purpose of enforcing the provisions of article 3 of this Order, or any equivalent provision in any other order extending to any part of the United Kingdom made for the purposes of implementing a specified Community measure, any British sea-fishery officer may in Wales -

- (a) enter and inspect at any reasonable time any premises used for carrying on any business in connection with the operation of fishing boats or activities connected therewith or ancillary thereto or with the treatment, storage or sale of fish;
- (b) take with him or her such other persons as appear to the officer to be necessary and any equipment or materials;
- (c) examine any fish on the premises and require persons on the premises to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the examination;
- (d) carry out at such premises such other inspections or tests as may reasonably be necessary;
- (e) require any person not to remove or cause to be removed any fish from such premises for such a period as may be reasonably necessary for the purposes of establishing whether a relevant offence has at any time been committed;
- (f) require any person on the premises to produce any documents which are in that person's custody or possession relating to the catching, landing, transportation, trans-shipment, sale or disposal of any fish;
- (g) for the purpose of ascertaining whether any person on the premises has committed a relevant offence, search the premises for any such document and may require any person on the premises to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the search;
- (h) inspect and take copies of any such document produced to the officer or found on the premises;

- (ff) ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson priodol neu gyfrifol yn trosi unrhyw ddogfen o'r fath i ffurf weladwy a darllenadwy, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol ei chyflwyno mewn ffurf y gellir mynd â hi oddi yno; ac
- (g) os oes gan y swyddog reswm dros amau bod tramgwydd perthnasol wedi'i gyflawni, caiff gipio a chadw unrhyw ddogfen o'r fath a gyflwynir iddo neu iddi neu y deuir o hyd iddi yn yr adeiladau er mwyn galluogi defnyddio'r ddogfen fel tystiolaeth mewn achos ynglŷn â'r tramgwydd.

(2) Bydd darpariaethau paragraff (1) uchod yn gymwys, gyda'r newidiadau angenrheidiol, mewn perthynas ag unrhyw dir a ddefnyddir mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithgareddau a ddisgrifir ym mharagraff (1) uchod, neu mewn cysylltiad ag unrhyw gerbyd y mae gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig achos rhesymol dros gredu ei fod yn cael ei ddefnyddio i gludo cynhyrchion pysgodfeydd, yn yr un modd ag y maent yn gymwys i adeiladau ac, yn achos cerbyd, byddant yn cynnwys y pŵer i'w gwneud yn ofynnol ar unrhyw adeg fod cerbyd yn stopio, ac, os oes angen, i gyfarwyddo'r cerbyd i ryw fan arall i hwyluso'r archwilio.

(3) Os oes ynad heddwch, ar ôl derbyn hysbysiaeth ysgrifenedig ar lw, wedi'i fodloni –

- (a) bod yna sail resymol dros gredu bod unrhyw ddogfennau neu eitemau eraill y mae gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig bŵer o dan yr erthygl hon i'w harchwilio mewn unrhyw adeiladau a bod eu harchwilio yn debyg o ddatgelu tystiolaeth bod tramgwydd perthnasol wedi'i gyflawni; a
- (b) naill ai –
 - (i) bod mynediad i'r adeiladau wedi'i wrthod neu'n debyg o gael ei wrthod a bod hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant wedi'i roddi i'r meddiannydd; neu
 - (ii) y byddai gwneud cais am fynediad neu roi hysbysiad o'r fath yn rhwystro bwriad y mynediad, neu nad yw'r adeiladau yn cael eu meddiannu, neu fod y meddiannydd yn absennol dros dro, ac y gallai aros i'r meddiannydd ddychwelyd rwystro bwriad y mynediad;

fe gaiff yr ynad drwy gyfrwng gwarant a lofnodir ganddo ac a fydd yn ddilys am fis, awdurdodi swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig i fynd i'r adeiladau, drwy ddefnyddio grym rhesymol os oes ei angen, ac i fynd â'r personau sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol gydag ef.

- (i) require any appropriate or responsible person to render any such document on a computer system into a visible and legible form, including requiring it to be produced in a form in which it may be taken away; and
- (j) if the officer has reason to suspect that a relevant offence has been committed, seize and detain any such document produced to him or her or found on the premises for the purpose of enabling the document to be used as evidence in proceedings for the offence.

(2) The provisions of paragraph (1) above shall apply with necessary modifications in relation to any land used in connection with any of the activities described in paragraph (1) above, or in respect of any vehicle which a British sea-fishery officer has reasonable cause to believe is being used to transport fisheries products, as they apply in relation to premises and, in the case of a vehicle, shall include power to require the vehicle to stop at any time and, if necessary, direct the vehicle to some other place to facilitate the inspection.

(3) If a justice of the peace on sworn information in writing is satisfied -

- (a) that there is reasonable ground to believe that any documents or other items which a British sea-fishery officer has power under this article to inspect are on any premises and that their inspection is likely to disclose evidence of the commission of a relevant offence; and
- (b) either -
 - (i) that admission to the premises has been or is likely to be refused and that notice of intention to apply for a warrant has been given to the occupier; or
 - (ii) that an application for admission or the giving of such notice would defeat the object of the entry, or that the premises are unoccupied, or that the occupier is temporarily absent and it might defeat the object of the entry to await the occupier's return;

the justice may by warrant signed by him or her, and valid for one month, authorise a British sea-fishery officer to enter the premises, if need be by reasonable force, and to take with him or her such persons as appear to the officer to be necessary .

Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig i gipio pysgod ac offer pysgota

8. Yng Nghymru ac yn y môr cyfagos at Gymru, caiff unrhyw swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig gipio –

- (a) unrhyw bysgod (gan gynnwys unrhyw gynhwysydd sy'n dal y pysgod) y mae gan y swyddog sail resymol dros amau bod tramgwydd perthnasol wedi'i gyflawni mewn perthynas â hwy; a
- (b) unrhyw rwyd neu offer pysgota arall y mae gan y swyddog sail resymol dros amau eu bod wedi'u defnyddio wrth gyflawni tramgwydd perthnasol.

Pwerau swyddogion eraill

9.-(1) Er mwyn gorfodi darpariaethau erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn, neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol mewn unrhyw orchymyn arall sy'n ymestyn i unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig a wneir er mwyn gweithredu mesur Cymunedol penodedig, i'r graddau y mae unrhyw ddarpariaeth o'r fath yn gymwys i bysgod sy'n rhy fach, caiff unrhyw un o'r swyddogion a restrir ym mharagraff (2) isod, wrth weithredu yng Nghymru neu yn y môr cyfagos at Gymru, ar bob adeg resymol –

- (a) mynd ar fwrdd unrhyw gwch pysgota Prydeinig,
- (b) mynd i mewn i unrhyw dir neu adeiladau (heblaw annedd) a ddefnyddir ar gyfer rhedeg unrhyw fusnes mewn cysylltiad â thrin, storio neu werthu pysgod,
- (c) chwilio am unrhyw bysgod a'u harchwilio mewn unrhyw le, boed ar fwrdd cwch pysgota neu mewn man arall, a boed mewn cynhwysydd neu beidio; ac
- (ch) cipio unrhyw bysgod y mae gan y swyddog sail resymol dros gredu bod tramgwydd perthnasol mewn perthynas â physgod rhy fach wedi'i gyflawni mewn perthynas â hwy.

(2) Dyma'r swyddogion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) o'r erthygl hon –

- (a) unrhyw swyddog a awdurdodir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru,
- (b) unrhyw swyddog i awdurdod marchnadoedd yng Nghymru, yn gweithredu o fewn terfynau unrhyw farchnad y mae gan yr awdurdod hwnnw bŵer i'w rheoleiddio; ac
- (c) unrhyw swyddog pysgodfeydd i bwyllgor pysgodfeydd lleol yn gweithredu o fewn unrhyw ran o ardal y pwyllgor sydd yng Nghymru neu yn y môr cyfagos at Gymru.

(3) Er mwyn gorfodi darpariaethau erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn, neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol mewn unrhyw orchymyn arall sy'n ymestyn i unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig a wneir er mwyn gweithredu

Powers of British sea-fishery officers to seize fish and fishing gear

8. In Wales and within the sea adjacent to Wales, any British sea-fishery officer may seize -

- (a) any fish (including any receptacle which contains the fish) in respect of which the officer has reasonable grounds to suspect that a relevant offence has been committed; and
- (b) any net or other fishing gear which the officer has reasonable grounds to suspect has been used in the course of the commission of such an offence.

Powers of other officers

9.-(1) For the purpose of enforcing the provisions of article 3 of this Order, or any equivalent provision in any other order extending to any part of the United Kingdom made for the purposes of implementing a specified Community measure, in so far as any such provision applies to undersized fish, any of the officers listed in paragraph (2) below may, when acting in Wales or within the sea adjacent to Wales, at all reasonable times –

- (a) go on board any British fishing boat,
- (b) enter any land or premises (other than a dwelling) used for carrying on any business in connection with the treatment, storage or sale of fish,
- (c) may search for and examine any fish in any place, whether on board a fishing boat or elsewhere, and whether in a receptacle or not; and
- (d) may seize any fish in respect of which the officer has reasonable grounds to suspect that a relevant offence in relation to undersized fish has been committed.

(2) The officers referred to paragraph (1) of this article are –

- (a) any officer authorised by the National Assembly for Wales,
- (b) any officer of a market authority in Wales, acting within the limits of any market which that authority has power to regulate; and
- (c) any fishery officer of a local fisheries committee acting within any part of the district of the committee which lies in Wales or within the sea adjacent to Wales.

(3) For the purpose of enforcing the provisions of article 3 of this Order, or any equivalent provision in any other order extending to any part of the United Kingdom made for the purposes of implementing a

mesur Cymunedol penodedig, i'r graddau y mae'n ymwneud â rhwydi ac offer pysgota arall, caiff unrhyw swyddog pysgodfeydd i bwyllgor pysgodfeydd lleol, mewn unrhyw ran o ardal y pwyllgor sydd yng Nghymru neu yn y môr cyfagos at Gymru, fynd ar fwrdd unrhyw gwch pysgota Prydeinig a chwilio am bob rhwyd neu offer pysgota arall ac unrhyw bysgod sy'n cael eu cario yn y cwch hwnnw a'u harchwilio, a chaiff gipio unrhyw rwyd neu offer pysgota arall y mae gan y swyddog sail resymol dros gredu bod tramgwydd perthnasol yn ymwneud â rhwydi neu offer pysgota arall wedi'i gyflawni mewn perthynas â hwy.

Amddiffyn swyddogion

10. Ni fydd swyddog na pherson sy'n ei helpu yn rhinwedd erthyglau 6(2), 7(1)(b) neu 7(3) o'r Gorchymyn hwn yn atebol mewn unrhyw achosion sifil neu droseddol am unrhyw beth a wneir drwy arfer honedig o'r pwerau a roddwyd iddo yn rhinwedd erthyglau 6 i 9 o'r Gorchymyn hwn os yw'r llys wedi'i fodloni fod y weithred wedi'i gwneud yn ddiwyll, bod sail resymol dros ei gwneud a'i bod wedi'i gwneud gyda medr a gofal rhesymol.

Rhwystro swyddogion

11. Bydd unrhyw berson sydd -

- (a) heb esgus rhesymol yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig o dan y pwerau a roddwyd i swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig gan erthyglau 6, 7 neu 8 o'r Gorchymyn hwn;
- (b) heb esgus rhesymol yn rhwystro, neu'n ceisio rhwystro, unrhyw berson arall rhag cydymffurfio ag unrhyw ofyniad o'r fath; neu
- (c) yn ymosod ar swyddog sydd wrthi yn arfer unrhyw un o'r pwerau a roddir iddo gan erthyglau 6 i 9 o'r Gorchymyn hwn neu yn fwriadol yn llesteirio unrhyw swyddog o'r fath sydd wrthi yn arfer unrhyw un o'r pwerau hynny;

yn euog o drosedd, ac yn agored -

- (i) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol; neu
- (ii) o'i gollfarnu ar ddiad, i ddirwy.

Darpariaethau ynglŷn â thramgwyddau

12.-(1) Pan brofir bod unrhyw dramgwydd o dan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn a gyflawnwyd gan gorff corfforedig wedi'i gyflawni gyda chydysyniad neu ymoddefiad cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall o'r corff corfforedig, neu berson yn cymryd arno neu'n ymddangos fel pe bai'n gweithredu mewn unrhyw swyddogaeth o'r fath, neu y gellir ei briodoli i unrhyw esgeulustod ar ei ran, bydd y person hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforedig, yn

specified Community measure, in so far as it relates to nets and other fishing gear, any fishery officer of a local fisheries committee may, within any part of the district of the committee which lies in Wales or within the sea adjacent to Wales, go on board any British fishing boat and search for and examine all nets or other fishing gear and any fish carried in that boat, and may seize any net or other fishing gear in respect of which the officer has reasonable grounds to suspect that a relevant offence in relation to nets or other fishing gear has been committed.

Protection of officers

10. An officer or a person assisting him or her by virtue of articles 6(2), 7(1)(b) or 7(3) of this Order shall not be liable in any civil or criminal proceedings for anything done in the purported exercise of the powers conferred on him or her by articles 6 to 9 of this Order if the court is satisfied that the act was done in good faith, that there were reasonable grounds for doing it and that it was done with reasonable skill and care.

Obstruction of officers

11. Any person who -

- (a) fails without reasonable excuse to comply with any requirement imposed by a British sea-fishery officer under the powers conferred on British sea-fishery officers by articles 6, 7 or 8 of this Order;
- (b) without reasonable excuse prevents, or attempts to prevent, any other person from complying with any such requirement; or
- (c) assaults an officer who is exercising any of the powers conferred on him or her by articles 6 to 9 of this Order or intentionally obstructs any such officer in the exercise of any of those powers;

shall be guilty of an offence and liable -

- (i) on summary conviction to a fine not exceeding the statutory maximum; or
- (ii) on conviction on indictment to a fine.

Provisions as to offences

12.-(1) Where any offence under article 3 of this Order committed by a body corporate is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of, a director, manager, secretary or other similar officer of the body corporate, or a person purporting to act in any such capacity, that person, as well as the body corporate, shall be guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

euog o'r tramgwydd ac yn agored i achos a chosb yn unol â hynny.

(2) Pan brofir bod unrhyw dramgwydd o dan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn a gyflawnwyd gan bartneriaeth wedi'i gyflawni gyda chydysyniad neu ymoddefiad partner, neu y gellir ei briodoli i unrhyw esgeulustod ar ei ran, bydd y partner hwnnw, yn ogystal â'r bartneriaeth, yn euog o'r tramgwydd ac yn agored i achos a chosb yn unol â hynny.

(3) Pan brofir bod unrhyw dramgwydd o dan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn a gyflawnwyd gan gymdeithas anghorfforedig (heblaw partneriaeth) wedi'i gyflawni gyda chydysyniad neu ymoddefiad unrhyw swyddog o'r gymdeithas neu unrhyw aelod o'i chorff llywodraethu, neu y gellir ei briodoli i unrhyw esgeulustod ar ei ran, bydd y person hwnnw, yn ogystal â'r gymdeithas, yn euog o'r tramgwydd ac yn agored i achos a chosb yn unol â hynny.

Achosion

13.-(1) Caiff pwyllgor pysgodfeydd lleol ddwyn achos o dan unrhyw un o'r darpariaethau a restrir ym mharagraff (2) o'r erthygl hon mewn perthynas ag unrhyw dramgwydd sy'n digwydd o fewn unrhyw ran o ardal y pwyllgor sydd yng Nghymru neu yn y môr cyfagos at Gymru.

(2) Dyma'r darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) –

- (a) erthygl 3(1) o'r Gorchymyn hwn, pan yw'r tramgwydd wedi'i seilio ar dorri'r canlynol, neu ar fethu â chydymffurfio â hwy –
 - (i) Erthyglau 4, 6, 7, 8, 9, 11, 14 i 16, 18, 19, 26 a 30 i 34 o Reoliad 850/98, neu
 - (ii) paragraffau 4, 6 a 9 o Atodiad V i Reoliad 2742/99; neu
- (b) erthygl 3(2)(a) o'r Gorchymyn hwn.

Derbynioldeb coflyfrau a dogfennau eraill fel tystiolaeth

14.-(1) Bydd unrhyw -

- (a) coflyfr a gedwir o dan Erthyglau 6, 17.2 neu 28c;
- (b) datganiad a gyflwynir o dan Erthyglau 8.1, 11, 12, 17.2 neu 28f;
- (c) adroddiad ymdrech a gwblheir o dan Erthyglau 19b a 19c;
- (ch) dogfen a lunnir o dan Erthyglau 9 neu 13; a
- (d) dogfen yn cynnwys gwybodaeth a fynnwyd a ddaeth i law canolfan monitro pysgodfeydd a sefydlwyd o dan Erthygl 3.7,

o Reoliad 2847/93 mewn unrhyw achos ynglŷn â thrangwydd perthnasol, yn dystiolaeth o'r materion a ddatgenir ynddynt.

(2) Where any offence under article 3 of this Order committed by a partnership is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of, a partner, that partner, as well as the partnership, shall be guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(3) Where any offence under article 3 of this Order committed by an unincorporated association (other than a partnership) is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of, any officer of the association or any member of its governing body, that person, as well as the association, shall be guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

Proceedings

13.-(1) A local fisheries committee may take proceedings under any of the provisions listed in paragraph (2) of this article in respect of any offence occurring within any part of the district of the committee which lies in Wales or within the sea adjacent to Wales.

(2) The provisions referred to in paragraph (1) are -

- (a) article 3(1) of this Order, where the offence is founded on a contravention of, or failure to comply with –
 - (i) Articles 4, 6, 7, 8, 9, 11, 14 to 16, 18, 19, 26 and 30 to 34 of Regulation 850/98, or
 - (ii) paragraphs 4, 6 and 9 of Annex V of Regulation 2742/99; or
- (b) article 3(2)(a) of this Order.

Admissibility in evidence of logbooks and other documents

14.-(1) Any-

- (a) logbook kept under Articles 6, 17.2 or 28c;
- (b) declaration submitted under Articles 8.1, 11, 12, 17.2 or 28f;
- (c) effort report completed under Articles 19b and 19c;
- (d) document drawn up under Articles 9 or 13; and
- (e) document containing required information received by a fisheries monitoring centre established under Article 3.7,

of Regulation 2847/93 shall, in any proceedings for a relevant offence, be evidence of the matters stated therein.

(2) At ddibenion paragraff (1), ystyr “gwybodaeth a fynwyd” yw –

- (a) adnabyddiaeth cwch pysgota;
- (b) lleoliad daearyddol diweddaraf y cwch pysgota wedi'i fynegi mewn graddau a munudau o hydred a lledred; ac
- (c) dyddiad ac amser pennu'r lleoliad hwnnw;

fel y maent wedi'u cyfathrebu drwy gyfrwng system loeren ar gyfer monitro cychod a sefydlwyd o dan Erthyg 3(1) o Reoliad 2847/93.

Diddymu

15.- Mae Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cadwraeth y Gymuned) 1997 **(a)** a Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cadwraeth y Gymuned) (Diwygio) 1997 **(b)** drwy hyn wedi'u diddymu i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru a'r môr cyfagos at Gymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(c)**.

Dafydd Elis Thomas

10 Awst 2000

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(2) For the purpose of paragraph (1), “required information” shall mean -

- (a) a fishing boat's identification;
- (b) the most recent geographical position of the fishing boat expressed in degrees and minutes of longitude and latitude; and
- (c) the date and time of the fixing of that position;

as communicated via a satellite-based vessel monitoring system established under Article 3(1) of Regulation 2847/93.

Revocation

15.- The Sea Fishing (Enforcement of Community Conservation Measures) Order 1997**(a)** and the Sea Fishing (Enforcement of Community Conservation Measures) (Amendment) Order 1997**(b)** are hereby revoked in so far as they apply to Wales and to the sea adjacent to Wales.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(c)**.

10th August 2000

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) O.S. 1997/1949.

(b) O.S. 1997/2841.

(c) 1998 p.38.

(a) S.I. 1997/1949.

(b) S.I. 1997/2841.

(c) 1998 c.38.

ATODLEN

**UCHAFSWM DIRWYON AR GOLLFARNIAD DIANNOD (HEBLAW DIRWYON SY'N
GYSYLLTIEDIG Â GWERTH PYSGOD)**

Colofn 1 Y Ddarpariaeth Gymunedol	Colofn 2 Y Pwnc	Colofn 3 Uchafswm y ddirwy ar golfarniad diannod
Rhan I Rheoliad 894/97 Erthygl 11	Darpariaethau ynghylch rhwydi drifft.	Yr uchafswm statudol
Rhan II Rheoliad 850/981		
1. Erthygl 4, fel y'i darllenir gydag Erthyglau 5 a 10	Darpariaethau ynghylch maint rhwyllau, y rhywogaethau a dargedir, a'r haldiad sy'n gyfreithiol wrth ddefnyddio offer sy'n cael eu tynnu.	Yr uchafswm statudol
2. Erthygl 5(3)	Gwaharddiad ar drawslwytho heb lenwi coflyfr yn unol â darpariaethau Erthygl 6 o Reoliad 2847/93.	£50,000
3. Erthygl 6	Cyfyngiad ar uchafswm y rhwyllau mewn offer penodol sy'n cael ei dynnu.	Yr uchafswm statudol
4. Erthygl 7	Darpariaethau ynghylch cynnwys panelau sgwâr o rwyllau mewn offer penodedig sy'n cael ei dynnu, a lleoliad y panelau hynny.	Yr uchafswm statudol
5. Erthygl 8(1) a (2), fel y'i darllenir gydag Erthygl 8(3)	Cyfyngiad ar drwch y llinyn mewn offer sy'n cael ei dynnu.	Yr uchafswm statudol
6. Erthygl 9(1), fel y'i darllenir gydag Erthygl 9(2)	Gwaharddiad ar gario neu ddefnyddio offer sy'n cael ei dynnu a wnaed yn llwyr neu yn rhannol o rwydi heblaw'r mathau a bennwyd.	Yr uchafswm statudol
7. Erthygl 11, fel y'i darllenir gydag Erthyglau 12 a 13	Cyfyngiadau ar ddefnyddio offer sefydlog penodedig neu eu cadw ar fwrdd y cwch.	Yr uchafswm statudol

Colofn 1 Y Ddarpariaeth Gymunedol	Colofn 2 Y Pwnc	Colofn 3 Uchafswm y ddirwy ar gollfarniad diannod
8. Erthygl 14	Gofyniad i ddioli haldiadau yn union ar ôl eu tynnu o'r rhwydi.	Yr uchafswm statudol
9. Erthygl 15	Gwaharddiad ar lanio neu gadw pysgod uwchlaw canrannau penodedig.	Yr uchafswm statudol
10. Erthygl 16	Gwaharddiad ar ddyfeisiau sy'n llesteirio rhwydi.	Yr uchafswm statudol
11. Erthygl 18(3)	Gwaharddiad ar gadw a glanio cimychiaid, cimychiaid yr afon, a molysgiaid deufalf a gastropod oni bai eu bod yn gyfan.	Yr uchafswm statudol
12. Erthygl 18(4)	Gwaharddiad ar gadw a glanio crancod bwytdwy oni bai eu bod yn gyfan, yn ddarostyngedig i uchafswm wedi'i fynegi fel canran ar gyfer cadw a glanio crafangau sydd wedi'u datod.	Yr uchafswm statudol
13. Erthygl 19(1), fel y'i darllenir gydag Erthyglau 17, 18(1)-(2), 19(2)-(3) a 35	Gwaharddiad ar gadw, trawslwytho, glanio, cludo, storio, gwerthu, cynnig gwerthu ac arddangos pysgod sy'n rhy fach.	Yr uchafswm statudol
14. Erthygl 20(1), fel y'i darllenir gydag Erthygl 20(2) a (3)	Gwaharddiad ar bysgota am benwaig mewn dyfroedd penodedig yn ystod adegau penodedig.	£50,000
15. Erthygl 21(1), fel y'i darllenir gydag Erthygl 21(2)	Gwaharddiad ar bysgota am gorbenwaig mewn dyfroedd penodedig yn ystod adegau penodedig.	£50,000
16. Erthygl 22(1), fel y'i darllenir gydag Erthygl 22(2) a (3)	Gwaharddiad ar bysgota am fecryll mewn dyfroedd penodedig yn ystod adegau penodedig.	£50,000
17. Erthygl 23(1)	Gwaharddiad ar bysgota am frwyniaid â threillrwydi cefnforol yn Adran VIIIc ICES, a'u cadw ar fwrdd y cwch.	£50,000
18. Erthygl 23(2)	Gwaharddiad ar gario treillrwydi cefnforol a rhwydi crychu sân ar fwrdd y cwch ar yr un pryd yn Adran VIIIc ICES.	Yr uchafswm statudol
19. Erthygl 24	Gwaharddiad ar bysgota am diwna sgipjac a thiwna llygadfawr drwy ddefnyddio offer penodedig, a chadw'r rhywogaethau hyn ar fwrdd y cwch os cawsant eu dal â'r offer hyn, mewn ardaloedd penodedig o dan awdurdodaeth Sbaen a Phortiwgal.	£50,000

Colofn 1 Y Ddarpariaeth Gymunedol	Colofn 2 Y Pwnc	Colofn 3 Uchafswm y ddirwy ar gollfarniad diannod
20. Erthygl 25(1), fel y'i darllenir gydag Erthygl 25(2) a (3)	Gwaharddiad ar gadw berdys ar fwrdd y cwch os cawsant eu dal ag offer penodedig.	£50,000
21. Erthygl 26(1), fel y'i darllenir gydag Erthygl 26(2)	Gwaharddiad ar gadw, trawslwytho, glanio, cludo, storio, gwerthu, cynnig gwerthu ac arddangos eogiaid a brithyllod môr a ddaliwyd drwy ddefnyddio offer yn cael ei dynnu neu o fewn dyfroedd penodedig.	Yr uchafswm statudol
22. Erthygl 27(1), fel y'i darllenir gydag Erthygl 27(2)	Gwaharddiad ar gadw ar fwrdd y cwch swtaniaid Norwy a ddaliwyd drwy ddefnyddio offer yn cael ei dynnu mewn dyfroedd penodedig.	£50,000
23. Erthygl 28(1)	Gwaharddiad ar bysgota am gegdduod mewn dyfroedd penodedig yn ystod adegau penodedig.	£50,000
24. Erthygl 28(2)	Gwaharddiad ar gario offer penodedig mewn dyfroedd penodedig oni bai ei fod wedi'i rwymo ac wedi'i roi i gadw yn unol â'r darpariaethau a bennir yn Erthygl 20(1) o Reoliad 2847/93.	Yr uchafswm statudol
25. Erthygl 29	Cyfyngiadau ar bysgota am ledod gan gychod penodol drwy ddefnyddio offer penodedig mewn dyfroedd penodedig.	£50,000
26. Erthygl 30(1)	Darpariaethau ynghylch defnyddio offer dyfnforol yn cael ei dynnu.	Yr uchafswm statudol
27. Erthygl 30(2) a (3)	Gwaharddiad ar ddefnyddio offer penodol sy'n cael ei dynnu mewn dyfroedd penodedig oddi ar arfordir gogledd-ddwyrain y Deyrnas Unedig ac yn Adran Vb ICES ac is-ardal VI ICES. Gwaharddiad ar gario offer penodol sy'n cael ei dynnu mewn dyfroedd penodedig oni bai ei fod wedi'i rwymo ac wedi'i roi i gadw yn unol â'r darpariaethau a bennir yn Erthygl 20(1) o Reoliad 2847/93.	Yr uchafswm statudol
28. Erthygl 31(1) a (2), fel y'i darllenir gydag Erthygl 41	Gwaharddiad ar ddefnyddio ffrwydrion, sylweddau cysgbeiriol neu gerrynt trydan i bysgota. Gwaharddiad ar werthu, arddangos neu gynnig gwerthu unrhyw organeddau morol a ddaliwyd drwy ddefnyddio dulliau sy'n cynnwys defnyddio unrhyw fath o daflegryn.	Yr uchafswm statudol
29. Erthygl 32(1), fel y'i darllenir gydag Erthygl 32(2) a (3)	Darpariaethau ynghylch defnyddio offer graddio awtomatig.	Yr uchafswm statudol

Colofn 1 Y Ddarpariaeth Gymunedol	Colofn 2 Y Pwnc	Colofn 3 Uchafswm y ddirwy ar gollfarniad diannod
30. Erthygl 33(1), fel y'i darllenir gydag Erthygl 33(2) a 33(3)	Gwaharddiad ar amgylchynu mamaliaid morol â rhwydi crychu sân.	Yr uchafswm statudol
31. Erthygl 34	Cyfyngiadau ar ddefnyddio treillrwydi trawst o fewn 12 milltir i arfordiroedd y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.	Yr uchafswm statudol
32. Erthygl 35	Cyfyngiadau ar gadw ar fwrdd y cwch, trawslwytho, storio, cludo, arddangos neu gynnig gwerthu organeddau rhy fach a ddaliwyd yn y Skagerrak a'r Kattegat.	£50,000
33. Erthygl 36	Gwaharddiad ar lanio, cadw ar fwrdd y cwch, trawslwytho, storio, cludo, gwerthu, arddangos neu gynnig gwerthu eogiaid a brithyllod môr a ddaliwyd o fewn unrhyw ran o'r Skagerrak a'r Kattegat y tu allan i'r ffin pedair-milltir wedi'i mesur o waelodlinau'r Aelod-wladwriaethau.	£50,000
34. Erthygl 37(1), fel y'i darllenir gydag Erthygl 37(2)	Cyfyngiadau ar ddefnyddio treillrwydi penodol o fewn 3 milltir o'r gwaelodlinau yn y Skagerrak a'r Kattegat rhwng 1 Gorffennaf a 15 Medi.	£50,000
35. Erthygl 38	Gwaharddiad ar gadw ar fwrdd y cwch benwaig, mecryll a chorbenwaig a ddaliwyd drwy ddefnyddio rhwydi crychu sân neu dreillrwydi rhwng amserau penodedig yn y Skagerrak neu'r Kattegat.	£50,000
36. Erthygl 39	Gwaharddiad ar ddefnyddio treillrwydi trawst yn y Kattegat.	£50,000
37. Erthygl 40	Gwaharddiad, yn ystod y cyfnodau ac yn yr ardaloedd y cyfeirir atynt yn Erthyglau 37, 38 a 39 lle na chaniateir defnyddio treillrwydi na threillrwydi trawst, ar gario'r rhwydi hyn ar fwrdd y cwch oni bai eu bod wedi'u rhwymo ac wedi'u rhoi i gadw yn unol â'r darpariaethau a bennir yn Erthygl 20(1) o Reoliad 2847/93.	Yr uchafswm statudol
38. Erthygl 42(1), fel y'i darllenir gydag Erthygl 42(2)	Gwaharddiad ar brosesu pysgod (ac eithrio offal) yn gorfforol neu yn gemegol, neu eu trawslwytho i'w prosesu ar fwrdd cwch neu long pysgota er mwyn cynhyrchu blawd pysgod, olew pysgod, neu gynhyrchion tebyg.	Yr uchafswm statudol

Colofn 1 Y Ddarpariaeth Gymunedol	Colofn 2 Y Pwnc	Colofn 3 Uchafswm y ddirwy ar gollfarniad diannod
Rhan III Rheoliad 2742/99		
Erthygl 9, fel y'i darllenir gydag:		
(a) paragraff 3 o Atodiad V	Gwaharddiad ar bob pysgota yn Nyfnfor Bornholm o 15 Mai i 31 Awst 2000 yn gynwysedig.	£50,000
(b) paragraff 4 o Atodiad V	Gwaharddiad yn ystod y flwyddyn 2000 ar lanio neu gadw ar fwrdd y cwch lymrïaid a ddaliwyd o fewn ardal a ffinir gan arfordir dwyrain Lloegr a'r Alban.	£50,000
(c) paragraff 6 o Atodiad V	Defnyddio rhwyllau o 90mm o leiaf ar gyfer pysgota am ledod chwithig yn Adrannau IVc a VIId ICES yn ystod y flwyddyn 2000.	Yr uchafswm statudol
(d) paragraff 8 o Atodiad V	Gofynion ynghylch sgil-haldiadau a maint rhwyllau yn y Skagerrak a'r Kattegat yn ystod y flwyddyn 2000.	Yr uchafswm statudol
(e) paragraff 9 o Atodiad V	Lledod i fod yn 27cm o leiaf i gael eu glanio yn ystod y flwyddyn 2000.	Yr uchafswm statudol

MAXIMUM FINES ON SUMMARY CONVICTION (APART FROM FINES RELATED TO VALUE OF FISH)

Column 1 Community Provision	Column 2 Subject matter	Column 3 Maximum fine on summary conviction
Part I Regulation 894/97		
Article 11	Provisions relating to drift nets.	The statutory maximum
Part II Regulation 850/981		
1 Article 4, as read with Articles 5 and 10	Provisions relating to mesh sizes, target species, and required catch percentages when using towed gears.	The statutory maximum
2. Article 5(3)	Prohibition on transshipment without completing a logbook in accordance with the provisions of Article 6 of Regulation 2847/93.	£50,000
3. Article 6	Limitation on the maximum number of meshes in certain towed gear.	The statutory maximum
4. Article 7	Provisions relating to the inclusion and placement of square mesh panels in specified towed gear.	The statutory maximum
5. Article 8(1) and (2), as read with Article 8(3)	Limitation on the twine thickness of towed gears.	The statutory maximum
6. Article 9(1), as read with Article 9(2)	Prohibition on the carriage or use of towed gears constructed wholly or in part of netting other than types specified.	The statutory maximum
7. Article 11, as read with Articles 12 and 13	Limitations on the use or keeping on board of specified fixed gears.	The statutory maximum

Column 1 Community Provision	Column 2 Subject matter	Column 3 Maximum fine on summary conviction
8. Article 14	Requirement to sort catches immediately after removal from nets.	The statutory maximum
9. Article 15	Prohibition on the landing or retention of fish in excess of specified percentages.	The statutory maximum
10. Article 16	Prohibition on devices that obstruct nets.	The statutory maximum
11. Article 18(3)	Prohibition on the retention and landing of lobsters, crawfish, and bivalve and gastropod molluscs unless they are whole.	The statutory maximum
12. Article 18(4)	Prohibition on the retention and landing of edible crabs unless they are whole, subject to a maximum percentage for the retention and landing of detached claws.	The statutory maximum
13. Article 19(1), as read with Articles 17, 18(1)-(2), 19(2)-(3) and 35	Prohibition on the retention, transshipment, landing, transport, storage, sale, offer for sale and display of undersized fish.	The statutory maximum
14. Article 20(1), as read with Article 20(2) and (3)	Prohibition on fishing for herring in specified waters during specified times.	£50,000
15. Article 21(1), as read with Article 21(2)	Prohibition on fishing for sprat in specified waters during specified times.	£50,000
16. Article 22(1), as read with Article 22(2) and (3)	Prohibition on fishing for mackerel in specified waters during specified times.	£50,000
17. Article 23(1)	Prohibition on fishing for anchovy with, and the retention on board of anchovy caught using, pelagic trawls in ICES Division VIIIc.	£50,000
18. Article 23(2)	Prohibition on the simultaneous carrying on board of pelagic trawls and purse seines in ICES Division VIIIc.	The statutory maximum
19. Article 24	Prohibition on fishing for skipjack and bigeye tuna using specified gear, and the retention on board of such species caught using such gear, in specified areas under the jurisdiction of Spain and Portugal.	£50,000
20. Article 25(1), as read with Article 25(2) and (3)	Prohibition on retaining on board shrimps caught with specified gear.	£50,000

Column 1 Community Provision	Column 2 Subject Matter	Column 3 Maximum fine on summary conviction
21. Article 26(1),as read with Article 26(2)	Prohibition on the retention, trans-shipment, landing, transport, storage, sale, offer for sale and display of salmon and sea trout caught using towed gears or within specified waters	The statutory maximum
22. Article 27(1),as read with Article 27(2)	Prohibition on the retention on board of Norway pout caught using towed gears in specified waters.	£50,000
23. Article 8(1)	Prohibition on fishing for hake in specified waters during specified times.	£50,000
24. Article 28(2)	Prohibition on the carriage of specified gear in specified waters unless lashed and stowed in accordance with the provisions laid down in Article 20(1) of Regulation 2847/93.	The statutory maximum
25. Article 29	Restrictions on the fishing for plaice by certain vessels using specified gear in specified waters.	£50,000
26. Article 30(1)	Provisions relating to the use of demersal towed gears.	The statutory maximum
27. Article 30(2) and (3)	Prohibition on the use of certain towed gear in specified waters off the north-east coast of the United Kingdom and in ICES Division Vb and ICES sub-area VI. Prohibition on the carriage of certain towed gears in specified waters unless lashed and stowed in accordance with the provisions laid down in Article 20(1) of Regulation 2847/93.	The statutory maximum
28. Article 31(1) and (2), as read with Article 41	Prohibition on the use of explosives, stupefying substances or electric current for fishing. Prohibition on the sale, display or offer for sale of any marine organisms caught using methods incorporating the use of any kind of projectile.	The statutory maximum
29. Article 32(1), as read with Article 32(2) and (3)	Provisions relating to the use of automatic grading equipment.	The statutory maximum
30. Article 33(1), as read with Article 33(2) and 33(3)	Prohibition on the encirclement of marine mammals with purse seines.	The statutory maximum
31. Article 34	Restrictions on the use of beam trawls within 12 miles of the coasts of the United Kingdom and Ireland.	The statutory maximum

Column 1 Community Provision	Column 2 Subject Matter	Column 3 Maximum fine on summary conviction
32. Article 35	Limitations on retention on board, trans-shipment, storage, transport, display or offer for sale of undersized organisms caught in the Skagerrak and Kattegat.	£50,000
33. Article 36	Prohibition on the landing, retention on board, trans-shipment, storage, transport, sale, display or offer for sale of salmon and sea trout caught within any part of the Skagerrak and Kattegat situated outside the four-mile limit measured from the baselines of Member States.	£50,000
34. Article 37(1), as read with Article 37(2)	Limitations on the use of certain trawls within 3 miles of the baselines in the Skagerrak and Kattegat between 1 July and 15 September.	£50,000
35. Article 38	Prohibition on the retention on board of herring, mackerel and sprat caught using purse seines or trawls between specified times in the Skagerrak or Kattegat.	£50,000
36. Article 39	Prohibition on the use of beam trawls in the Kattegat.	£50,000
37. Article 40	Prohibition, during the periods and in the areas referred to in Articles 37, 38 and 39 where trawls or beam trawls may not be used, on carrying on board such nets unless they are lashed and stowed in accordance with the provisions laid down in Article 20(1) of Regulation 2847/93.	The statutory maximum
38. Article 42(1), as read with Article 42(2)	Prohibition on the physical or chemical processing, or transshipment for processing, of fish (except offal) on board a fishing vessel to produce fish-meal, fish-oil, or similar products.	The statutory maximum
Part III Regulation 2742/99		
Article 9, as read with:		
(a) paragraph 3 of Annex V	Prohibition on all fishing in the Bornholm Deep from 15 May to 31 August 2000 inclusive.	£50,000
(b) paragraph 4 of Annex V	Prohibition during the year 2000 on the retention on board or landing of sand eels caught within an area bounded by the east coast of England and Scotland.	£50,000

Column 1 Community Provision	Column 2 Subject Matter	Column 3 Maximum fine on summary conviction
(c) paragraph 6 of Annex V	Minimum mesh size of 90mm applied to fishing for sole in ICES Divisions IVc and VIIId during the year 2000.	The statutory maximum
(d) paragraph 8 of Annex V	Requirements as to mesh sizes and by-catches in the Skagerrak and Kattegat during the year 2000.	The statutory maximum
(e) paragraph 9 of Annex V	Minimum landing size of 27cm for plaice during the year 2000.	The statutory maximum

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2000 Rhif 2230 (Cy. 148)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi
Mesurau Cadwraeth y Gymuned)
(Cymru)
2000

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 No. 2230 (W. 148)

**SEA FISHERIES,
WALES**

The Sea Fishing (Enforcement of
Community Conservation
Measures) (Wales) Order
2000

© h Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£4.50

W/64/10/00

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090126-6



9 780110 901268